Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Bagloriaeth Cymru – Blwyddyn 10
# Pwy sy'n dylanwadu ar ein bywydau?



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

# Uned 01 – Beth yw barn pobl ifanc am wleidyddiaeth?

## Beth yw barn eich ffrindiau/eich athrawon/eich teulu am wleidyddiaeth?

**Nod:** Cynnal arolwg drwy ddefnyddio holiadur.

**Amcanion:**

–Datblygu sgiliau meddwl drwy greu holiadur;
–Datblygu sgiliau ymchwil - casglu data uniongyrchol, cyflwyno gwybodaeth ar ffurf graff a'i dadansoddi;
–Gwerthuso holiadur;
–Ystyried barn pobl wahanol;
–Ystyried beth yw gwir bwysigrwydd gwleidyddiaeth.

**Adnoddau:**

–**Adnodd 06: Erthygl David Williamson o'r Western Mail**.
–'Defnyddio holiaduron' - cymorth o'r wefan: **http://www.wbq.org.uk/cym/wbq-using_questionnaires_-_welsh.ppt**
–**Adnodd 07: Sleidiau PowerPoint 'A oes gennym ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth?'** i helpu i ysgogi'r ddadl.

**Tasg:**

**CAM 1 – Gwaith Ymchwil**

–Gofyn y cwestiwn, "A yw eich barn am wleidyddiaeth yn newid / cryfhau wrth ichi fynd yn hŷn neu a yw pobl ifanc yr un mor wleidyddol â'r genhedlaeth hŷn? Os dymunwch, defnyddiwch y sleidiau PowerPoint i helpu i ysgogi'r ddadl.
–Darllen yr erthygl o'r Western Mail sy'n nodi pam y dylai gwleidyddiaeth fod mor bwysig inni. A yw'r sefyllfa yn newid wrth inni fynd yn hŷn? Dylid cynnal trafodaeth mewn parau neu grwpiau.
–Trafodaeth yn y dosbarth ynghylch sut y gall y plant fynd ati i ddod o hyd i ateb i'r cwestiwn hwn.
–Dechrau meddwl sut y byddant yn llunio holiadur a sut y byddant yn cyflwyno atebion i'r cwestiynau penagored a'r cwestiynau ag iddynt atebion penodol.
–Darllen y wybodaeth 'Defnyddio holiaduron'.

**CAM 2 – Llunio holiadur a chynnal cyfweliadau**

- Llunio holiadur (gall hyn gymryd sawl gwers os rhoddir y cyfle i'r disgyblion gwblhau'r holiaduron yn yr ystafell dechnoleg gwybodaeth); cynllunio pwy i'w holi a phryd;
- Cynnal yr arolwg gan ddefnyddio'r holiaduron. Dylid holi ystod eang o bobl o wahanol oedrannau a chadw cofnod o'r holl ymatebion.

**CAM 3 – Dadansoddi'r data**

- Casglu'r data a rhoi trefn ar yr holl wybodaeth;
- Dadansoddi'r data a'u cyflwyno ar ffurf adroddiad, erthygl papur newydd, cyflwyniad llafar ac ati. Ysgrifennu crynodeb o'r ffeithiau pwysicaf ar ddechrau'r darn ac ysgrifennu casgliad ar y diwedd.

**CAM 4 – Gwerthuso**

- Gwerthuso'r holiadur. Pa gwestiynau a weithiodd yn dda? Pa fath o gwestiynau na weithiodd cystal? Beth fyddech yn ei newid y tro nesaf?

## Adnodd 06

**WESTERN MAIL**

**“Beth am newid y byd, neu Ewrop, neu’r Deyrnas Unedig, neu Gymru, neu’ch tref!**

**Erthygl gan David Williamson, Golygydd Gwleidyddol, *y Western Mail,* 22 Mawrth 2012.**

Pwy sy’n rheoli Cymru?

Chi sy’n rheoli Cymru. Dyna’r nod, o leiaf.

Pan fyddwch yn troi’n 18 oed, cewch yr hawl i bleidleisio, ac yna gallwch gyflogi gwleidyddion ein gwlad mewn etholiadau, a dangos y drws iddynt, fel petai.

Wrth gwrs, nid yw mor syml â hynny, ond nid yw llawer mwy cymhleth ychwaith, cofiwch.

Mae pob gwleidydd yn gwybod, os bydd wedi mynd yn amhoblogaidd gydag etholwyr, y bydd, ar noson etholiad, yn ddi-waith. Arweiniodd Winston Churchill Brydain drwy’r Ail Ryfel Byd, ond collodd ei swydd pan benderfynodd pobl Prydain eu bod yn barod am newid.

Mae gwleidyddiaeth yn greulon, ond mae’r frwydr, lle y mae syniadau’n gwrthdaro, yn parhau i ddenu pobl sy’n awyddus i newid y byd.

Pam bod Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gael am ddim ym Mhrydain tra bo pobl America yn talu crocbris am driniaeth feddygol? Pam bod gan Ffrainc system drenau wych a pham bod Norwy yn gwneud mwy na’r un wlad arall, o bosibl, i helpu menywod i gyrraedd y brig ym myd busnes?

Ym mhob un o’r achosion hyn, y rheswm dros hyn yw bod penderfyniadau pwysig wedi cael eu gwneud gan ddynion a menywod a enillodd bleidleisiau mewn etholiad, a thrwy hynny newidiwyd natur eu gwledydd.

Daw cyffro’r X Factor yn ail yn unig i gyffro’r gystadleuaeth frwd a geir mewn etholiad cyffredinol. Mae pob etholiad cyffredinol yn fater o benderfynu pa arweinydd plaid a fydd yn cyflawni’r nod eithaf.

Mae'r un mor bosibl ichi bryderu ynghylch y goleuadau sydd wedi torri yn y stryd lle y mae eich nain yn byw, a'r diffyg cyfleusterau ailgylchu. Os felly, bydd angen ichi gymryd diddordeb yn etholiadau'r cynghorau.

Os ydych yn credu'n daer y dylai'r Gymraeg fod yn bwnc gorfodol i bob myfyriwr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch, neu os ydych yn argyhoeddedig na ddylai fod yn orfodol, byddwch yn awyddus i gadw llygad ar bwy yw'r Gweinidog addysg yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Os ydych o'r farn mai'r hyn sydd ei angen ar y byd yw Unol Daleithiau Ewrop, neu mai problem Prydain yw bod gormod o reoliadau yn dod o Frwsel, efallai y bydd lefel eich adrenalin yn codi pan fydd etholiadau Senedd Ewrop yn agosáu.

Wrth gwrs, mae rhai gwleidyddion yn ddiflas, yn union fel y mae rhai pêl-droedwyr yn ennyn cymaint o gyffro â gwylio paent yn sychu, ond ni ddylai gwleidyddiaeth fyth fod yn syrffedus. Mae o'r pwys mwyaf i ni ac mae'n hawdd iawn cymryd rhan mewn democratiaeth.

Yr hyn a geir mewn pleidiau lleol yw criwiau bach brwd o bobl sy'n tynnu i'r un cyfeiriad, a byddant yn eich croesawu i'w plith os byddwch yn fodlon treulio ambell fore dydd Sadwrn yn dosbarthu taflenni ac yn brwydro dros achos sydd o bwys i chi. Os byddwch yn dal ati'n ddigon hir a bod gennych fwy na gronyn o ddawn ac uchelgais, dylech gael y cyfle i sefyll mewn etholiad i un o lefelau'r llywodraeth er mwyn helpu i redeg Cymru.

Mae bywyd yn rhy fyr ac mae'r materion sydd yn y fantol yn rhy bwysig i chi wastraffu amser yn sefyll ar y cyrion. Pan gewch eich cyfle, pleidleisiwch; gwell fyth, beth am gymryd rhan?

Yng Nghymru, mae 1,264 o gynghorwyr sy'n gwasanaethu ar 22 o gynghorau, tua 8,000 o gynghorwyr cymuned, pedwar Aelod o Senedd Ewrop, 40 Aelod yn Senedd San Steffan (AS) a 60 Aelod Cynulliad (AC).

Mae'n system gymhleth ond, eto, nid yw mor gymhleth â hynny.

Mae Aelodau'r Cynulliad yn gweithio yn yr adeilad gwydr, llechi a haearn hwnnw ym Mae Caerdydd, sef y Senedd.

Y Blaid Lafur yw'r blaid fwyaf, a chanddi 30 o'r 60 sedd yn y Senedd. Carwyn Jones, arweinydd y blaid honno, yw'r Prif Weinidog ac mae gan ei dîm o Weinidogion Llywodraeth Cymru swyddfeydd ym Mharc Cathays, sydd gerllaw.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am feysydd fel addysg, cynllunio, yr amgylchedd, trafnidiaeth, iechyd a datblygu'r economi.

Nid oes ganddi'r pwerau i bennu trethi nac i fenthyca arian ar hyn o bryd, ond mae Comisiwn Silk, sef grŵp trawsbleidiol, yn ymchwilio i a ddylai gael y pwerau hyn. Bydd digon i'w drafod dros y misoedd nesaf.

Llywodraeth y DU, yn Llundain, sy'n gyfrifol am drethi, budd-daliadau, y gwasanaethau heddlu a materion tramor a pholisi milwrol.

Methodd David Cameron a'r Blaid Geidwadol â sicrhau digon o Aelodau Seneddol yn etholiad San Steffan yn 2010 i fedru ffurfio Llywodraeth. Felly, cafwyd digwyddiad hanesyddol pan darodd fargen â Nick Clegg drwy ffurfio clymblaid â'r Democratiaid Rhyddfrydol.

O'r 40 Aelod Seneddol a anfonwyd i San Steffan o etholaethau Cymru, dim ond wyth sedd a enillwyd gan y Ceidwadwyr a thair sedd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Enillodd y Blaid Lafur 26 o seddi a Phlaid Cymru, sydd eisiau annibyniaeth i Gymru, y tair sedd arall.

Cynhelir etholiad nesaf San Steffan yn y flwyddyn 2015, ond bydd nifer yr Aelodau Seneddol yn lleihau felly dim ond 30 o bobl a gaiff eu hanfon gan Gymru i Dŷ'r Cyffredin.

Os mai materion lleol sy'n eich cyffroi fwyaf, efallai y byddwch am fod yn gynghorydd. Mae nifer o wleidyddion enwog wedi bwrw'u prentisiaeth yn y cynghorau, ond mae llywodraeth leol yn llawer mwy na dim ond cam ar yr ysgol yrfaol.

Cynghorau sy'n bennaf cyfrifol am redeg gwasanaethau cymhleth a hanfodol fel ysgolion, llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden a chasglu gwastraff.

Os bydd dyn busnes am agor siop datŵs sydd hefyd yn glwb nos ar y penwythnos, drws nesaf i fyngalo eich modryb, cynghorwyr sy'n gyfrifol am roi sêl bendith neu beidio i'r fenter.

Hefyd, cynghorau cymuned a chynghorau tref sy'n gofalu am fannau chwarae ac arosfannau bysiau yn aml. Does fawr o swyn i'r swyddi hyn mewn gwirionedd na dim gobaith y cewch wahoddiad i'r Cenhedloedd Unedig, ond gall darparu'r cyfleusterau lleol hyn wneud gwahaniaeth mawr i ansawdd bywyd pobl.

Dim ond pedwar person ar y tro a all gynrychioli Cymru yn Senedd Ewrop.

O'r pedwar Aelod sydd gennym yn Senedd Ewrop, mae gan y Blaid Lafur, y Ceidwadwyr, Plaid Cymru a Phlaid Annibynnol y Deyrnas Unedig un aelod yr un.

Os yw'r syniad o fod yn un o'r 785 o bobl sydd â chyfrifoldeb dros drafod deddfwriaeth a fydd yn effeithio ar fywydau dros 500 miliwn o ddinasyddion mewn undeb sy'n cynnwys 27 o wledydd yn apelio atoch, yna dyma'r swydd i chi.

Dim ond 27 mlwydd oed oedd Eluned Morgan, y cyn Aelod o Senedd Ewrop dros y blaid Lafur, pan y'i hetholwyd. Nid yw oedran yn rhwystr o gwbl i neb ymuno â'r byd gwleidyddol; dim ond 23 oed oedd Charles Kennedy, cyn arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, pan ddaeth yn Aelod Seneddol.

Os byddwch yn blino clywed pobl yn cwyno am wleidyddion ac yn sôn am y Senedd, y cynghorau a'r Cynulliad fel pe baent yn glybiau sy'n agored i bobl fawr a phwysig yn unig, rhaid ichi ddangos nad yw hyn yn wir. Mynnwch fwrw'r rhwystrau er mwyn newid ein byd.